# Cofnodion cyfarfod

# 7/3/19

**Presennol:** Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan (*Gwynedd)*, Lis Puw *(Clerc)*; Cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru.

Nododd yr Heddlu ei bod yn bosib i fusnesau wrthod derbyn papurau arian o'r Alban; gellir cyfeirio defnyddwyr at y Swyddfa Bost neu'r Banc er mwyn eu newid. Roedd pryder am ddamweiniau yn ardal Pont Tryweryn ar yr A494 i gyfeiriad Llanfor. Cytunodd y Cyngor i ysgrifennu at Gyngor Llandderfel i ofyn am eu cefnogaeth wrth dynnu sylw NMWTRA at y damweiniau diweddar. Mae'r wardeiniaid traffig wedi bod yn rhoi ticedi parcio i'r sawl sy'n parcio ar draws llinellau melyn yn ardal Bro Eryl, yn ogystal â gor-barcio yn y strydoedd eraill.

1. Wrth groesawu pawb, diolchodd y Maer i'r Heddlu am eu presenoldeb a'u negeseuon. Yn ei sylwadau, dywedodd Sharon Evans iddi ddarparu te pnawn a threfnu adloniant i dros hanner cant o breswylwyr Awel y Coleg a Chysgod y Coleg yn ddiweddar. Roedd yn fraint ganddi hefyd ymuno gyda Theulu'r Berwyn wrth iddynt ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolchodd hefyd i Ysgol y Berwyn am y gwahoddiad caredig i weld y sioe "Pum Diwrnod o Ryddid" a chytunwyd i anfon llythyr o longyfarchiadau i'r ysgol am lwyfannu sioe ardderchog. Derbyniwyd ymddiheuriadau Susan Davies, Ivora Jones a Carol Rowlands.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/2/19.
4. **Materion y Clerc:** Anfonwyd llythyr o gefnogaeth i'r Gwasanaeth Tân yn eu hymdrechion i gael safleoedd parcio dynodedig ar gyfer eu gwirfoddolwyr ym maes parcio'r Grîn.
5. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd Dilwyn Morgan, y Cynghorydd Sir, iddo fynychu cyfarfod gosod y Gyllideb yng Nghaernarfon. Ar gais y Cynghorwyr, addawodd cael cyflenwad o bosteri i'w gosod yn y dref i atgoffa perchnogion i godi baw cŵn.
6. **Diwrnod Llesiant Canolfan Henblas** - derbyniwyd adroddiad gan Eluned Jones a'r Clerc ar achlysur llwyddiannus iawn yng Nghanolfan Henblas ar 22/2/19. Disgwylir gwell darpariaeth er lles pobl Penllyn o ganlyniad i'r cyfarfod.
7. **Materion Cynllunio**: Cymeradwywyd cais NP5/53/LB162E, sef dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad newydd, Plas Teg, 45 Heol Tegid.



ARWYDDWYD.....................................................(MAER) ........................................................(CLERC)

**8. Materion Cyllid:**

- **i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol.
- **ii.** Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
- **iii.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r dyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer glanhau'r llochesi bws. Cytunwyd i lanhau'r lloches wrth yr Eglwys Gatholig bob 2 fis, a'r un wrth Dafarn y Bull bob 4 mis.

**9. Gohebiaeth:**

- **i.** Nodwyd derbyn ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn.
- **ii.** Trafodwyd llythyr o Lywodraeth Cymru yn cynnig cefnogaeth ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema craidd, sef ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau. Roedd Partneriaeth Penllyn wedi anfon at y Cynghorau ym Mhenllyn yn gofyn am gefnogaeth i wneud y cais, a chytunwyd i roi cefnogaeth i'w cais er lles y Bartneriaeth a'r Cynghorau.
- **iii.** Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru - rhannwyd Arolwg ar wasanaeth tu allan i oriau Meddygon Teulu.
- **iv.** Cyngor Gwynedd **–** Rhannwyd gwybodaeth am Adolygiad Cludiant Cyhoeddus Gwynedd.
- **v.** Rhannwyd gwybodaeth oddi wrth y Co-op am arian sydd ar gael ar gyfer Pŵer Solar cymunedol Cymreig
- **vi.** Triathlon **–** derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod 25/2/19 gyda'r nos yn Y Bala. Nid oedd yn bosib i gynrychiolwyr fynychu cyfarfod a drefnwyd yn ystod y dydd yn Nolgellau.
- **vii.** Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau ariannol.
- **viii.** Rhannwyd gwybodaeth am gymorth gyda ffôn, ipad, cyfrifiadur bob bore Mercher ym mis Mawrth yng Nghanolfan Henblas.
- ix. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru.
- x. Nodwyd derbyn gwybodaeth am gyfarfod rhannu profiadau cymunedol a drefnir gan Bartneriaeth Ogwen.
- xi. Derbyniwyd neges oddi wrth Jill Evans, Aelod Seneddol Ewrop a phenderfynwyd yn unfrydol ar gynnig i wrthwynebu claddu gwastraff niwclear.
- xii. Derbyniwyd gwybodaeth am gynhyrchiad gan Gwmni Theatr Bara Caws yn Llanuwchllyn ar Ebrill 13.

10. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan Alun Price yn amlinellu'r newidiadau sydd yn yr arfaeth.

11. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig Carol Rowlands eu bod mewn cyflwr derbyniol. Trefnwyd is-bwyllgor Nadolig i gyfarfod ar 21/3/19 (Y Maer, Y Cynghorydd Sir, Carol Rowlands, Rhys Evans, Eluned Jones, Alun Price)

12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Cytunodd Dilwyn Morgan i drefnu bod gwirfoddolwyr Merched y Wawr yn cael benthyg offer pwrpasol ar gyfer codi sbwriel.
*Amser gorffen: 8.05pm*



ARWYDDWYD.....................................................(MAER) .........................................................(CLERC)